

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd



Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru, Parc Menter Quinton Hazell,
Ffordd Glan y Wern, Bae Colwyn, LL28 5BS



01492542212

Cynhaliwyd yr ymweliad arolygu ar 08/04/2026

Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

Gweithredir gan:

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru -
Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd

Math o Ofal:

Gwasanaeth Cymorth Cartref

Lleoedd cofrestredig:

0

Prif iaith/ieithoedd:

Cymraeg a Saesneg

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant
Cymru:

Mae'r darparwr yn hyrwyddo, yn rhagweld, yn nodi ac yn
diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl.

Graddau:



Llesiant

Da



Gofal a Chymorth

Da



Arweinyddiaeth a
Rheolaeth

Da

Crynodeb:

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru – Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd yn sefydliad sy'n cefnogi gofalwyr, drwy ddarparu gofal a chymorth i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt ledled Gogledd Cymru. Mae wedi'i leoli ym Mochdre, sydd ar gyrion Bae Colwyn.

Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau llesiant da gan eu bod yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol ac yn ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau personol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fyw'n dda, ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyrraedd eu nodau, cyflawni eu canlyniadau a, lle bynnag y bo'n bosibl, hyrwyddo eu hannibyniaeth.

Mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl yn dda. Mae hyn oherwydd bod y bobl yn cael cymorth gan staff sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol ac sy'n cael eu harwain gan gynlluniau cymorth manwl. Mae'r cynlluniau personol yn adlewyrchu'r unigolyn yn gywir ac yn nodi'r ffordd y mae'r bobl am gael eu cefnogi yn glir. Mae'r bobl yn gadarnhaol am y staff gofal sy'n eu cefnogi.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dda. Mae'r trefniadau arwain yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol o ddydd i ddydd. Mae'r darparwr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ac mae ganddo brosesau ar waith i fonitro hyn. Mae'n nodi meysydd i'w gwella ac yn cymryd camau i ddatblygu'r gwasanaeth. Mae'r darparwr yn sicrhau y caiff y prosesau gofynnol o ran recriwtio, hyfforddi a chefnogi staff eu cyflawni, ac yn sicrhau y darperir cymorth o ansawdd da. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bron bob dydd ac yn llunio adroddiad bob tri mis.

Canfyddiadau:



Llesiant

Da

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn penderfynu sut a phryd y caiff eu gofal a'u cymorth eu darparu. Caiff y bobl eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau a'u nodau personol gan staff cymorth ymrwymedig sy'n trin y bobl ag urddas a pharch. Caiff annibyniaeth y bobl ei hannog yn rhagweithiol. Mae'r staff cymorth yn cymryd amser i ddod i adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi, eu perthnasau a'r hyn sy'n bwysig iddynt, ac maent yn cael asesiadau cyn derbyn manwl gan weithwyr proffesiynol cyn i bobl ddechrau cael cymorth. Defnyddir yr asesiadau cyn derbyn hyn hefyd i arwain gofynion hyfforddiant y staff cyn i bobl ddechrau cael cymorth. Mae'r darparwr yn sicrhau bod gan y bobl lais am y gwasanaeth drwy arolygon adborth, adolygiadau monitro ansawdd ac adolygiadau un i un o'u gofal a'u cymorth cyffredinol. Mae gwybodaeth glir a chryno am y gwasanaeth ar gael i'r bobl sy'n cynnwys beth i'w wneud a phwy i siarad ag ef os bydd ganddynt bryder.

Siaradodd y bobl a'u perthnasau yn gadarnhaol am y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd un unigolyn wrthym wrth sôn am y staff cymorth *"Are excellent...are very helpful, and very understanding."* Dywedodd unigolyn arall fod y gwasanaeth yn *"Really good, excellent, we look forward to the staff coming."* Dywedodd y bobl wrthym hefyd y gallant gysylltu â'r swyddfa os bydd angen unrhyw beth arnynt a bod y cyfathrebu yn dda. Dywedwyd wrthym *"They are very accommodating around times and will change times. I'm very pleased with the service...the support my relative and I receive enables me to do what I need to do...the service changed so I can have more social interaction."* Mae'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth a'u gofawyr yn teimlo bod y cymorth y maent yn ei gael yn galluogi'r bobl i aros yn eu cartrefi am gyfnod hirach, yn rhoi cymorth i berthnasau (gofawyr) sy'n gallu cefnogi eu hanwyliaid am gyfnod hirach ac yn helpu i sicrhau cydberthnasau cadarnhaol rhwng y teuluoedd a'r rhai sy'n cael gofal.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae pob aelod o'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar waith i gefnogi eu gwybodaeth. Caiff staff cymorth eu recriwtio mewn ffordd ddiogel a chadarn, eu hyfforddi'n dda, a'u cefnogi'n briodol. Mae prosesau ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau, damweiniau a phryderon am ddiogelu, a chaiff y rhain eu monitro gan y rheolwyr er mwyn sicrhau yr eir ar drywydd pob cam gweithredu. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg cynhwysfawr ar waith i helpu i leihau risgiau a chadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae dogfennaeth ar gael yn Gymraeg ar gais. Mae rhai aelodau o'r staff cymorth yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac felly gallant gynnig gwasanaeth yn Gymraeg os bydd angen.



Caiff y bobl a / neu eu perthnasau eu cynnwys yn llawn wrth gyfarwyddo eu gofal a'u cymorth neu ofal a chymorth eu hanwyliaid; o rannu gwybodaeth hanfodol mewn asesiadau cychwynnol, i gymryd rhan mewn adolygiadau a chael y cyfle i wneud penderfyniadau a dewisiadau am eu cymorth yn rheolaidd. Gofynnir i'r bobl sy'n cael cymorth a'u perthnasau pa gymorth sydd ei angen arnynt mewn modd rhagweithiol. Mae hon yn broses gydgyssylltu barhaus o ddydd i ddydd rhwng y rhai sy'n cael cymorth a'r gwasanaeth. Dywedodd un unigolyn wrthym, *"Staff ask us what do we want them to do today."* Dywedodd perthynas arall fod y staff, *"Take into consideration mine and my relatives wishes...the service is invaluable."*

Mae'r darparwr hefyd yn sicrhau y caiff gwybodaeth o asesiadau proffesiynol eraill ei hystyried wrth lunio cynlluniau personol, ac y caiff unrhyw ganllawiau penodol eu dogfennu, gan gynnwys mewn asesiadau risg. Mae'r gweithwyr cymorth yn cadarnhau bod digon o wybodaeth yng nghynlluniau personol y bobl iddynt gyflawni eu rôl. Dywedodd y staff cymorth a'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth wrthym fod y cynlluniau gofal a chymorth yn adlewyrchu eu hanghenion yn gywir, a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael gofal a chymorth da, sy'n sicrhau eu bod yn cyflawni eu canlyniadau llesiant. Dywedodd un unigolyn wrthym, *"Staff go through the service my relative gets, they will up the service and are proactive in taking things forward if they think extra hours are needed, we are very fortunate to have the service."* Mae'r cynlluniau personol yn fanwl, yn gyfarwyddiadol, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn rhoi arweiniad clir i'r staff cymorth am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i gefnogi'r unigolyn. Caiff cymorth ei roi i'r bobl yn unol â'u dewisiadau a'u cynlluniau. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi darlun clir o'r unigolyn, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae rheolwyr y gwasanaeth hefyd yn adolygu'r cofnodion hyn ac yn cysylltu â'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n gywir, a'u bod yn cyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Cadarnhaodd y staff cymorth hefyd eu bod yn cwblhau proses sefydlu gydag unrhyw un newydd cyn dechrau rhoi cymorth iddo.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Caiff y bobl eu cefnogi i fod yn ddiogel ac mae asesiadau risg ar waith lle y bo angen. Mae'r darparwr yn deall y gofynion cyfreithiol o ran cefnogi oedolion sy'n wynebu risg ac yn gwneud atgyfeiriadau at dîm diogelu'r awdurdod lleol os bydd angen. Dywedodd y bobl wrthym eu bod nhw a'u perthnasau yn teimlo'n ddiogel gyda'r gwasanaeth y maent yn ei gael.



Mae'r bobl yn elwa ar wasanaeth trefnus sy'n ymrwymedig i ddarparu cymorth o ansawdd uchel i bobl. Mae systemau effeithiol ar waith i fonitro ansawdd. Caiff hyn ei gynnal drwy archwiliadau o feysydd gwahanol o'r gwasanaeth, ymweliadau gan yr Unigolyn Cyfrifol bron bob dydd, ac adborth gan y bobl a'u cynrychiolwyr. Mae gan y rheolwr nifer cynhwysfawr o archwiliadau sy'n cael eu cwblhau'n rheolaidd. Mae'r darparwr yn cwblhau'r adroddiad ar ansawdd y gofal ac yn cwblhau adroddiad chwarterol yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal arolwg boddhad blynyddol a gaiff ei anfon at bob rhanddeiliad, a chaiff y canfyddiadau eu rhannu â'r rhanddeiliaid. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn rhan o'r tîm sy'n gweithredu'r gwasanaeth. Mae'n gofyn am adborth gan y bobl sy'n derbyn gwasanaeth ac yn monitro'r ddarpariaeth gyffredinol drwy gynnal "Adolygiad o'r Gwasanaethau Gofal Unigol". Caiff canlyniadau'r adolygiad hwn eu trafod â rheolwr y gwasanaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu hadolygu a'u diweddarau pan fo angen, gan ddarparu cymorth pellach i'r staff mewn meysydd fel meddyginiaeth a diogelu.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan dîm o staff gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel, eu hyfforddi'n dda a'u cofrestru'n broffesiynol. Gwelsom fod yr holl wiriadau cyn cyflogi gofynnol ar waith cyn i rywun ddechrau gweithio i'r darparwr. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chael geirdaon priodol. Mae'r staff cymorth yn ymgymryd â phroses sefydlu ac yn cwblhau rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n cynnwys hyfforddiant arbenigol a gorfodol. Caiff hyfforddiant y staff ei deilwra at anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi, a chadarnhawyd hyn gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw. Mae hyn yn golygu eu bod yn meddu ar y wybodaeth i allu cefnogi'r bobl yn hyderus ac yn ddiogel. Caiff pob aelod o'r staff gymorth i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, a sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau unigol rheolaidd gyda'u rheolwr llinell. Mae'r staff yn cadarnhau bod cyfarfodydd tîm hefyd yn cael eu cynnal. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a bod y rheolwyr yn hawdd mynd atynt ac yn cymryd problemau o ddifrif. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, *"It is a fantastic firm to work for. They are the absolute best. They are very understanding and I can go and speak with managers about anything."* Dywedodd un arall, *"Managers take issues very seriously... They are very approachable and flexible. If I have any issues I will speak with them."*

Mae nifer digonol o staff cymorth yn cael eu cyflogi; cadarnhawyd hyn gan y cofnodion a welsom a'r hyn a ddywedodd rhanddeiliaid wrthym. Gwnaethom edrych ar y cofnodion a dywedodd y staff a'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth wrthym fod parhad gofal yn dda, gyda'r bobl yn cael cymorth gan nifer bach o staff cymorth.

Meysydd i'w gwella a nodwyd

Pan fyddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ac nad ydym wedi canfod bod risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl, byddwn yn tynnu sylw at y rhain gyda'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, rydym yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a bydd yn rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

Ni nododd AGC unrhyw feysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad hwn.

Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2026.

Cewch ddefnyddio ac aildddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.